

YSGOL GWYDDORAU GOFAL IECHYD SCHOOL OF HEALTHCARE SCIENCES

HEALTH CARE SUPPORT WORKER



Baglor mewn Nyrso (Oedolion)

Rhaglen Ran-amser Cyn-gofrestru

Ebrill 2018

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Rhaglen ran amser Baglor mewn Nyrso ar gyfer Gweithwyr Cefnogi Gofal Iechyd

Mae'r rhaglen Baglor mewn Nyrso hon yn cynnig cyfle seondio rhan-amser i Weithwyr Cefnogi Gofal Iechyd (GCGI) a gyflogir o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Mae'r rhaglen hon ar gael hefyd i GCGI a gyflogir mewn meddygfeydd teulu, lle mae'r meddyg teulu a'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi cytuno i gefnogi eu haelod staff. Cynhelir y cwrs am 23 awr yr wythnos am gyfnod o 2 flynedd a 9 mis a bydd yn dechrau gyda mynediad uniongyrchol i lefel 5. Mae cwblhau'r rhaglen radd hon yn llwyddiannus hefyd yn arwain at gofrestru proffesiynol gyda'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth.

Y meini prawf arferol ar gyfer mynediad i'r rhaglen yw:

- ◆ Cwblhau lefel 4 FdSc neu Dystysgrif Addysg Uwch mewn Ymarfer Gofal Iechyd yng Ngholeg Llandrillo, (gan fod y rhaglen lefel 4 benodol hon wedi'i dilysu i gwrdd â Safonau'r NMC ar gyfer Addysg Gyn-gofrestru 2010). Rhaid i ymgeiswyr fedru dangos tystiolaeth eu bod wedi cyflawni 767 awr o ymarfer clinigol a chyflawni'r cymwyseddau clinigol gofynnol ar gyfer eu maes ymarfer yn eu rhaglen lefel 4.
- ◆ Rhaid dangos tystiolaeth o rifedd a llythrennedd gyda TGAU gradd C neu uwch mewn Saesneg a mathemateg neu lwybr arall cydnabyddedig a ddilynwyd fel rhan o raglen astudio.
- ◆ Safe Medicate gyda sgôr pasio o fan leiaf 80%. (Gellir gwneud hyn fel rhan o'r broses ddewis os oes angen)
- ◆ Cliriad boddhaol gan y DBA
- ◆ Cliriad boddhaol iechyd galwedigaethol

Mae'n ofynnol hefyd y gall ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o hyfforddiant gorfodol cyfredol yn eu swydd bresennol. Cymeradwyaeth wedi'i llofnodi a geirada gan eich rheolwr ac awdurdodaeth gan eich cyfarwyddiaeth yn BIPBC.

Y Broses Gwneud Cais a Dewis

I wneud cais bydd rhaid i chi lenwi ffurflen gais gan gynnwys eich cymwysterau academiaidd a datganiad personol. Gallwch gael y ffurflen hon gan eich rheolwr neu drwy gysylltu

Mae'n rhaid i chi gael geirada gan reolwr eich ward yn cefnogi eich cais. Rhaid anfon y cais at eich arweinydd rhanbarthol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'w gymeradwyo cyn ei gyflwyno.

Rhaid cyflwyno eich cais, wedi'i lenwi, fel atodiad e-bost i Mrs Sandra Jeffreys, Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd yn s.jeffreys@bangor.ac.uk.

Ar ôl llwyddo i gyrraedd y rhestr fer, gwahoddir yr ymgeiswyr i ddiwrnod cyfweld penodol a defnyddir proses ddewis ar sail gwerth yr Ysgol i ddewis yr ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer y lleoedd sydd ar gael. Bydd ceisiadau'n cau ar ôl i'r holl lleoedd gael eu llenwi.

Mae ffurflenni cais a gwybodaeth wedi eu dosbarthu i reolwyr nyrsio adrannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Am wybodaeth bellach mae croeso i chi gysylltu â:

Nicky Horne, Pennaeth Addysg ac Ymarfer

Proffesiynol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

☎ 01248 682649 ✉ nicky.horne@wales.nhs.uk

Gill Truscott Darlithydd Nyrso/Arweinydd Cwrs PB

☎ 01248383922 ✉ g.truscott@bangor.ac.uk

YSGOL GWYDDORAU GOFAL IECHYD SCHOOL OF HEALTHCARE SCIENCES

HEALTH CARE SUPPORT WORKER



Bachelor of Nursing Adult & Mental Health fields

Pre-registration Part time Programme April 2019

Applicant Information

Part Time Bachelor of Nursing Programme for HCSW

This Bachelor of Nursing programme offers a part-time, secondment opportunity for current Healthcare Support Workers (HCSWs) employed within BCUHB. This programme is also available to HCSWs employed at GP practices, where the GP and Local Health Board have agreed to support their staff member. The course runs over 23 hours per week for 2 years and 9 months and will commence with direct entry into level 5. Successful completion of this degree programme also leads to professional registration with the Nursing and Midwifery Council.

The typical entry criteria for the programme are:

- ◆ Completion of the level 4 FdSc or Certificate of Higher Education in Healthcare Practice at Coleg Llandrillo, (as this specific level 4 programme is validated to meet the NMC Standards for Pre-registration Education 2010). Applicants must be able to evidence they undertook 767 hours of clinical practice hours and achieved the required clinical competencies for their field of practice in their level 4 programme.
- ◆ Evidence of numeracy and literacy with GCSE Grade C or above in English and mathematics or a recognised alternative, taken as part of a programme of study.
- ◆ Safe Medicate at a minimum 80% pass grade. (This can be undertaken as part of the selection process if required)
- ◆ Satisfactory DBS clearance
- ◆ Satisfactory occupational health clearance

It is also a requirement that candidates can evidence up to date mandatory training in their current post. Signed approval with a reference from your manager and authorisation from your directorate at BCUHB.

Application and Selection Process

To apply you will need to complete an application form which includes your academic qualifications and personal statement. You can obtain this from your manager or by contacting

You must obtain a reference from your ward manager supporting your application. The application must be sent to your BCUHB divisional lead for approval prior to submission.

Your completed application must be submitted as an email attachment to Mrs Sandra Jeffreys, School of Healthcare Sciences at s.jeffreys@bangor.ac.uk.

Following successful shortlisting, the applicants will be invited to attend an interview day and the School's value based selection process will be utilised to select the successful candidates for the available places. Applications will close when all places are filled.

Application forms and information have been distributed to BCUHB departmental nurse managers.

For further information you are welcome to contact:

Nicky Horne Head of Education and Professional Practice
Betsi Cadwaladr University Health Board

☎ 01248 682649 ✉ nicky.horne@wales.nhs.uk

Gill Truscott Nursing Lecturer/Course Lead BU

☎ 01248383922 ✉ g.truscott@bangor.ac.uk